PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Y TABLAU DIWEDDARAF AR GYFER 2019/20
## Datganiad ar Ganlyniadau Graddau

### Proffil dosbarthiad graddau'r sefydliad

1. Mae gan PA set gyffredin o gonfensiynau ar gyfer dyfarnu pob gradd israddedig. Mae byrddau arholi yn cael eu rheoli'n ganolog ac mae mesurau gwirio trwyadl ar waith er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cadw at ei rheoliadau a'i chonfensiynau. Mae adroddiadau blynyddol gan arholwyr allanol yn cadarnhau'n gyson bod y safonau'n cyd-fynd â'r safonau mewn mannau eraill ac â'r safonau trothwy yn y DU. Mae Confensiynau Arholiadau PA yn pennu a yw myfyrwyr yn cael symud ymlaen o'r naill flwyddyn astudio i'r nesaf a'r algorithm i gyfrifo dosbarth y radd a ddyfernir. Mae'r Rheoliadau a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (LlAA). https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/ .

2. Data

| Canran y Myfyrwyr fesul Dosbarthiad Gradd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| I | 14% | 17% | 18% | 15% | 20% |
| II(1) | 53% | 52% | 49% | 55% | 51% |
| II(2) | 28% | 28% | 29% | 27% | 25% |
| III | 4% | 3% | 3% | 2% | 2% |
| AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| PASIO | 1% | 0% | 0% | 1% | 2% |

Cafwyd cynnydd cyffredinol o 13% dros y 4 blynedd diwethaf yn nifer y graddau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth Uwch, ac mae hyn wedi arwain at gwymp cyfatebol yn y graddau eraill. Credir y gellir esbonio'r cynnydd mewn graddau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch yn sgil newidiadau mewn pedwar prif faes:

i. Mae'r pandemig wedi arwain at lai o arholiadau a mwy o asesu parhaus ac at fwy o fyfyrwyr yn ailsefyll i gael marciau llawn. Mae hyn wedi bod yn amlwg o ganlyniadau'r sector cyfan ar draws y DU yn 2020.

ii. nifer cynyddol o gyrsiau Meistr Integredig 4 blynedd o hyd lle mae angen i fyfyrwyr ennill marciau cyfartalog uwch er mwyn gallu symud ymlaen;

iii. tynhau'r rheolau symud ymlaen o ran cyfyngu ar y gallu i ailadrodd yr ail flwyddyn am farciau llawn; cafodd hyn effaith ar y dosbarthiadau gradd uwch oherwydd bod cynnydd bychan yn y gyfradd athreuliad yn golygu bod llai o fyfyrwyr a oedd yn debygol o gael dyfarniadau â dosbarth is yn cael eu cadw hyd y flwyddyn olaf;

iv. cynnydd yn effeithiolrwydd, prydlondeb a thrylwyredd yr asesu a'r adborth yn sgil rheolaeth fwy llym ar ddyddiadau cau ar gyfer marcio, cyflwyno electronig ac adborth electronig; yn ogystal â gostyngiad yn y gymhareb myfyrwyr: staff dros y cyfnod hwn. Ystyrir hefyd bod y gwelliannau hyn yn ffactorau allweddol wrth gyfrannu at y ffaith bod PA yn sicrhau canlyniadau sydd ar y blaen o ran y sector yn yr agwedd hon ar yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF).

| Canran y Dosbarthiadau Gradd fesul Pwnc | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| STEM | I | 17% | 20% | 21% | 18% | 24% |
| | II(1) | 47% | 45% | 46% | 50% | 49% |
| | II(2) | 28% | 30% | 29% | 28% | 23% |
| | III | 7% | 5% | 4% | 3% | 2% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 1% | 0% | 0% | 1% | 2% |
| AHSSBL | I | 12% | 15% | 16% | 12% | 17% |
| | II(1) | 58% | 57% | 52% | 60% | 54% |
| | II(2) | 28% | 26% | 29% | 26% | 26% |
| | III | 2% | 2% | 2% | 1% | 1% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 0% | 0% | 0% | 1% | 2% |

Nid oes tuedd glir dros amser ar gyfer y cymariaethau hyn rhwng y pynciau. Maent, fodd bynnag, yn adlewyrchu'r patrwm cenedlaethol https://www.hesa.ac.uk/dataand-analysis/students/outcomes/breakdown# lle mae gan bynciau'r gwyddorau gyfradd uwch o raddau dosbarth cyntaf a chyfradd is o raddau ail ddosbarth uwch na phynciau nad ydynt yn ymwneud â'r gwyddorau.

| Canran y Dosbarthiadau Gradd fesul Rhyw | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Benyw | I | 16% | 18% | 20% | 16% | 23% |
| | II(1) | 56% | 56% | 52% | 60% | 54% |
| | II(2) | 25% | 24% | 25% | 23% | 22% |
| | III | 3% | 1% | 2% | 1% | 1% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 0% | 0% | 0% | 0% | 1% |
| Gwryw | I | 12% | 16% | 16% | 13% | 18% |
| | II(1) | 51% | 48% | 47% | 51% | 49% |
| | II(2) | 31% | 32% | 33% | 30% | 28% |
| | III | 6% | 5% | 4% | 3% | 3% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 1% | 0% | 0% | 1% | 4% |

Mae'r rhaniad rhwng myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd yn parhau, gyda myfyrwyr benywaidd yn ennill niferoedd uwch o raddau dosbarth cyntaf a graddau ail ddosbarth uwch ym mhob blwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn cyd-fynd â'r canlyniadau cenedlaethol a

gyhoeddir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). https://www.hesa.ac.uk/dataand-analysis/students/outcomes ac mae'r ystadegau'n fwy cymhleth yn sgil y ffaith fod niferoedd gwahanol o fyfyrwyr gwrywaidd a benywaidd yn dewis pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

| Canran y Dosbarthiadau Gradd yn ôl Addysg y Rhieni | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Rhieniâ Chymhwyster AU | I | | 19% | 20% | 16% | 22% |
| | II(1) | | 54% | 51% | 56% | 55% |
| | II(2) | | 24% | 26% | 25% | 20% |
| | III | | 3% | 3% | 3% | 1% |
| | AEGROTAT | | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | | 0% | 0% | 1% | 2% |
| Rhieni heb Gymhwyster AU | I | | 17% | 18% | 11% | 22% |
| | II(1) | | 52% | 51% | 60% | 51% |
| | II(2) | | 29% | 28% | 26% | 24% |
| | III | | 2% | 3% | 2% | 1% |
| | AEGROTAT | | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | | 0% | 0% | 1% | 2% |
| Ddim yng wybod / Anhysbys / Gwrtho ateb | I | 14% | 15% | 17% | 16% | 18% |
| | II(1) | 53% | 49% | 45% | 51% | 48% |
| | II(2) | 28% | 32% | 34% | 30% | 29% |
| | III | 4% | 4% | 4% | 2% | 2% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 1% | 0% | 0% | 1% | 2% |

Mae'n anodd cadarnhau tuedd bendant dros amser, yn enwedig gan na chasglwyd data yn 2014/15, ond mae myfyrwyr sydd â rhieni â chymhwyster Addysg Uwch yn ennill graddau fymryn yn uwch yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaraf.

| **Canran y Dosbarthiadau Gradd** yn ôl Oed Mynediad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
| Iau na 21 | I | 14% | 160% | 16% | 11% | 19% |
| | II(1) | 59% | 56% | 57% | 61% | 59% |
| | II(2) | 26% | 27% | 25% | 25% | 22% |
| | III | 1% | 1% | 2% | 2% | 1% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| 21 a hŷn | I | 14% | 18% | 20% | 17% | 22% |
| | II(1) | 48% | 48% | 42% | 51% | 45% |
| | II(2) | 30% | 29% | 33% | 28% | 27% |
| | III | 7% | 52% | 4% | 2% | 2% |
| | AEGROTAT | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| | PASIO | 1% | 0% | 0% | 1% | 4% |

Er bod myfyrwyr hŷn yn ennill cyfradd uwch o raddau dosbarth cyntaf, maent hefyd yn ennill cyfradd is o raddau anrhydedd da ym mhob blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn ddiweddaraf. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ran cefndir a safonau mynediad academaidd myfyrwyr hŷn. Mae'r darlun cenedlaethol, a welir hefyd yn PA, o gyfradd uwch o ran tynnu'n ôl ymhlith myfyrwyr hŷn yn golygu ei bod hi'n anodd dod i gasgliadau ar sail y data hyn.

Dylid nodi, mewn perthynas â darpariaeth PA gyda phartneriaid, bod 5 myfyriwr wedi graddio â dyfarniadau Gradd Sylfaen o Goleg Gwent, ond oherwydd bod y niferoedd hyn mor fach ni ellir eu rhoi mewn tabl gan y gellid adnabod yr unigolion dan sylw.

## Arferion asesu a marcio

3. Ceir sicrwydd ynghylch yr arferion asesu a marcio yn sgil ymwneud ag arholwyr ac aseswyr allanol, o'r adeg pan fo rhaglenni'n cael eu datblygu hyd y cyfnodau cyflawni, asesu a monitro blynyddol. Mae prosesau adolygu cylchol yn cynnig golwg fwy hirdymor ar berfformiad a chyflawniad myfyrwyr fesul pwnc. Bob blwyddyn, mae tua 70 o arholwyr allanol academaidd israddedig ar lefel pynciau yn cael eu rheoli trwy gyfrwng tîm canolog, ac yn cael eu goruchwylio gan Fwrdd Academaidd. Mae bwrdd dyfarnu graddau terfynol y Senedd yn cynnwys craffu allanol ar brosesau PA gan weinyddwr uwch o brifysgol arall yn y DU.
4. Mae arholwyr allanol yn rhan allweddol o'r broses sicrwydd. Mae'r rhai a benodir yn academyddion a chanddynt brofiad ym maes asesu, cynllunio'r cwricwlwm, a chyfoethogi profiad myfyrwyr. Mae'r meini prawf ar gyfer eu penodi, a'u swyddogaeth, yn cael eu hamlinellu yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd, a chynhelir diwrnod briffio blynyddol ar gyfer yr holl arholwyr allanol newydd. Rhoddir crynodeb a throsolwg o adroddiadau arholwyr allanol i'r Senedd bob blwyddyn. Mae staff Aberystwyth hefyd yn gweithredu fel arholwyr allanol ac aelodau o baneli mewn sefydliadau eraill, ac yn ymwneud â datblygu staff, gan gynnwys fel cymrodorion Advance HE, a hynny oll yn cyfrannu at ymwybyddiaeth ehangach o bwyntiau cyfeirio allanol a meincnodau pwnc.
5. Mae'r LlAA yn amlinellu'r prosesau ac yn rhoi arweiniad o ran gweithdrefnau asesu, marcio a safoni, a sut i ymdrin ag amgylchiadau arbennig ac apeliadau. Mae arsylwyr mewnol annibynnol yn bresennol mewn byrddau arholi adrannol, yn ogystal ag arholwyr allanol pynciol, ac mae adrannau yn dadansoddi canlyniadau yn rhan o broses y bwrdd arholi. Mae pob darn o waith, gan gynnwys arholiadau, yn cael ei farcio ar sail meini prawf a amlinellir i'r myfyrwyr ar ddechrau pob modiwl. Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i arferion marcio na meini prawf asesu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae adroddiadau blynyddol ar lefel a math yr apeliadau academaidd yn dangos eu bod yn cael eu gwneud ar sail amgylchiadau arbennig ac yn rhoi rhagor o sicrwydd bod y prosesau marcio a safoni yn effeithiol. Y Cyfadrannau unigol sy'n ymdrin ag amgylchiadau arbennig, ac mae'r argymhellion yn cael eu hadolygu'n ganolog ac achosion anodd yn

cael eu cyfeirio at banel canolog amgylchiadau arbennig y Senedd. Aeth Adroddiad Adolygydd Allanol y Senedd yn 2019 ati'n benodol i ganmol y modd yr oedd y panel amgylchiadau arbennig canolog yn gweithredu:

> '*mae'r adolygu canolog ar bob achos o'r fath... yn sicrhau y ceir gwir gydraddoldeb ledled y Brifysgol o ran y modd yr ystyrir hawliadau o'r fath, ac mae'n cael gwared ar y risg y bydd staff lleol, sydd o bosibl yn adnabod y myfyrwyr ac yn gyfarwydd â'u hamgylchiadau, yn derbyn hawliadau pan nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r hawliad. Croesewir yn fawr y lefel o gysondeb y gellir ei sicrhau trwy gyfrwng proses ganolog. Ar sail y dystiolaeth yn y Bwrdd, mae'n amlwg fod y Panel Amgylchiadau Arbennig wedi cynnal proses fanwl gywir, ac mae'n galonogol nodi mai nifer cymharol isel o hawliadau o'r fath oedd wedi cael eu cefnogi. Mae hyn yn dangos bod y broses adolygu annibynnol yn ddiogel ac yn drwyadl.*

## Llywodraethu academaidd

6. Mae Pwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau yn adrodd ymlaen i'r Bwrdd Academaidd ac yna i'r Senedd, sy'n gyfrifol am safonau academaidd, sicrwydd ansawdd a datblygu'r holl ddarpariaeth. Mae trefniadau partneriaeth yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Darpariaeth Gydweithredol, sydd hefyd yn adrodd i'r Senedd. Bwrdd Arholi'r Senedd yw'r corff dyfarnu graddau y mae'r holl fyrddau adrannol yn adrodd iddo. Mae Adolygydd Allanol y Senedd, y Bwrdd Academaidd a'r Senedd oll wedi cael cyfle i gyfrannu at y Datganiad hwn ar Ganlyniadau Graddau, ac i wneud sylwadau arno. Mae datganiad Sicrhau Ansawdd blynyddol yn rhoi trosolwg i'r corff llywodraethu ar y sefyllfa o ran sicrhau ansawdd, gan gynnwys gweithgareddau partneriaeth. Ym mis Tachwedd 2019, cafodd y Bwrdd Academaidd adroddiad ar gyfraddau 'Graddau Anrhydedd Da' a marciau modiwlau. Roedd y gyfradd graddau anrhydedd da wedi cynyddu 1.5% i 70.7% yn 2018/19 ac roedd cyfradd y dyfarniadau dosbarth cyntaf wedi codi 5% i 20% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd llawer o amrywiaeth rhwng adrannau, a gwahaniaeth o tua 40% rhwng y cyfraddau isaf ac uchaf, ac roedd y Bwrdd Academaidd yn fodlon nad oedd y data presennol yn esgor ar bryderon sylweddol, er y dylid dal ati i adolygu'r tueddiadau.

## Algorithmau dosbarthiad graddau

7. Mae'r system dosbarthiad graddau anrhydedd yn cael ei phennu ar sail set gyffredin o gonfensiynau. Mae'r 'rhaeadr' yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli yr holl fodiwlau a astudiwyd yn rhan dau ac sy'n cyfrannu at y radd derfynol. Mae'n galluogi i fyfyrwyr wneud iawn am berfformiad gwael ar gam cynharach; yn canolbwyntio ar berfformiad da ac yn ei wobrwyo, heb roi cosbau gormodol am fethiant; mae'n gallu ymdopi â gwahanol gyfuniadau posibl o lefelau a modiwlau a chanddynt bwysoliad gwahanol o ran credydau, gan roi pwysoliad is i fodiwlau ar lefel is. Nid yw'r algorithm wedi cael ei newid ers ei gyflwyno yn y 1990au, ac eithrio'r pwysoliad a roddir i astudiaethau ar flwyddyn dramor. Fel arfer bydd myfyrwyr yn cael eu hasesu'n syth wedi iddynt gwblhau'r dysgu, a chaniateir dau gyfle iddynt ailsefyll am farc wedi'i gapio (40% ar gyfer lefel 4, 5 a 6 y Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch a 50% ar gyfer lefel 7). Ni chaniateir ailasesu ar gyfer unrhyw fodiwlau sy'n cael eu pasio.

## Arferion addysgu ac adnoddau dysgu

8. Mae'r Brifysgol yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau o ran adnoddau dysgu ac i gefnogi arloesi mewn arferion addysgu. Mae Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu arbennig yn cefnogi'r staff academaidd, ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae'r polisïau wedi cael eu mireinio a'u hymgorffori ledled y Brifysgol. Ymhlith y mentrau diweddar mae: gorfodaeth i gipio/recordio pob darlith; y gallu i gyflwyno gwaith cwrs yn electronig, gyda marcio ac adborth ar-lein; egwyddorion newydd adborth effeithiol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer adborth ar arholiadau; polisi presenoldeb wedi'i gyfuno â monitro presenoldeb cyffredinol; cyflwyno dadansoddeg dysgu a'r dangosfwrdd ymroddiad i'r staff academaidd - i'w ddefnyddio gan diwtoriaid personol a hefyd ymyriadau rhagweithiol â myfyrwyr sy'n isel o ran eu hymroddiad; dulliau cyson o ymwneud â'r system tiwtora personol; isafswm presenoldeb gofynnol ar yr amgylchedd dysgu rhithiol; rhestrau darllen gorfodol ar gyfer pob modiwl; adnewyddu ystafelloedd dysgu a chreu gofodau dysgu cymdeithasol; adnewyddu'r llyfrgell; Cyd-academyddion yn Arsylwi ar Addysgu a rhannu arferion addysgu effeithiol trwy gyfrwng y gynhadledd flynyddol ar ddysgu ac addysgu, Gwobr y Cwrs Nodedig a'r rhaglen DPP; Holiaduron Gwerthuso Modiwlau ledled y Brifysgol.

## Nodi arferion da, a chamau gweithredu

9. Mae gweithredu un algorithm graddau ledled y Brifysgol yn arfer da, ac mae prosesau a reolir yn ganolog yn helpu i sicrhau bod y rheolau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson ledled yr holl adrannau academaidd. Er mwyn gwella rhagor ar y cysondeb, bydd gwaith yn parhau i adolygu gweithdrefnau er mwyn canfod ymhle y gallai rhagor o weithgareddau gweithredol gael eu hawtomateiddio.

## Risgiau a heriau

10. Er ein bod yn hyderus nad oes unrhyw risgiau sylweddol wedi'u nodi, byddwn yn cadw golwg fanwl ar nifer y graddau dosbarth cyntaf, gan fod data 2018/19 wedi dangos cynnydd yn y ffigwr hwn. Y datganiad blynyddol o sicrwydd ansawdd i'r Corff Llywodraethu yw'r dull o adrodd ynghylch prosesau sicrwydd ansawdd, gan dynnu sylw at weithgarwch y flwyddyn flaenorol. Yn 2019 ychwanegwyd adran 'crynodeb gweithredol' yn tynnu sylw at y materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad, gyda system goleuadau traffig i ddangos lefel y pryder. Yn y dyfodol, bydd y datganiad ar ganlyniadau graddau hefyd yn cael ei gynnwys gyda'r datganiad blynyddol.